



Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru / Growing Mid Wales Partnership

Dydd Mawrth 5 Gorffennaf 2022

Tuesday 5 July 2022

2.00 pm

Cyfarfod Rhithiol

Virtual Meeting

Yn bresennol

Y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys (**Cadeirydd**) (**Cyngh. JG-W**)

Aggie Caesar-Homden, Tyfu Canolbarth Cymru (**ACH**)

Andrew Cornish, Coleg Ceredigion (**AC**)

Angharad Massow, Tyfu Canolbarth Cymru (**AM**)

Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion (**AE**)

Arwyn Davies, Cyngor Sir Ceredigion (**AD**)

Arwyn Watkins OBE, Hyfforddiant Cambrian (**ArW**)

Barbara Green, Tyfu Canolbarth Cymru (**BG**)

Carwyn Jones-Evans, Cyngor Sir Ceredigion (**CJE**)

Catherine Mealing-Jones, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (**CM-J**)

Cathy Martin, Tyfu Canolbarth Cymru (**CMn**)

Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru (**CS**)

Claire Miles, Tyfu Canolbarth Cymru (**CMs**)

Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion (**Cyng. BD**)

Y Cynghorydd Clive Davies, Cyngor Sir Ceredigion (**Cyng. CD**)

Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Cyngor Sir Gwynedd (**Cyng. DM**)

Y Cynghorydd Keith Henson, Cyngor Sir Ceredigion (**Cyng. KH**)

David Madge, Cwmpas (**DM**)

David Owen, Tyfu Canolbarth Cymru (**DO**)

Eifion Evans, Cyngor Sir Ceredigion (**EE**)

Gareth Marston, Tyfu Canolbarth Cymru (**GM**)

Gavin Bown, Cyfoeth Naturiol Cymru (**GB**)

Hywel Davies, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (**HD**)

Mark Dacey, Grŵp Colegau NPTC (**MD**)

Nia Williams, Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru (**NiaW**)

Nick Venti, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (**NV**)

Nicola Williams, Cyngor Sir Powys (**NW**)

Nigel Brinn, Cyngor Sir Powys (**NB**)

Peter Davies, Undeb Amaethwyr Cymru (**PD**)

Peter Howells, NFU Cymru (**PH**)

Peter James, Llywodraeth Cymru (**PJ**)

Rebecca Jeremy, Cyngor Sir Powys (**RJ**)

Rebecca Rees, Croeso Cymru (**RR**)

Rhian Heywood, AberInnovation (**RH**)

Steve Hughson, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (**SH**)

Thomas Yeo, Tyfu Canolbarth Cymru (**TY**)

Val Hawkins, Twristiaeth Canolbarth Cymru (**VH**)

Vanessa Cashmore, Coleg Ceredigion (**VC**)

Darparwyd y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod hwn gan Sian Jones, Cyfaiath.

Estynnodd y Cadeirydd, y Cyngorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys, groeso i bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i bawb a oedd yn bresennol eu cyflwyno eu hunain.

<p>1.</p>	<p>Ymddiheuriadau am absenoldeb Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol:- Ann Watkin, Llywodraeth Cymru (AW) Y Cyngorydd David Selby, Cyngor Sir Powys (DS) Y Cyngorydd Jackie Charlton, Cyngor Sir Powys (JC) Julie Lewis, Cyngor Sir Powys (JL) Lowri Gwilym, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (LG) Peter Skitt, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Y GIG (PS) Rhodri Morgan, Prifysgol Aberystwyth (RM)</p>
<p>2.</p>	<p>Cofnodion Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2022 yn gofnod cywir. Cynigiwyd gan Eifion Evans ac eiliwyd gan Peter Davies.</p>
<p>3.</p>	<p>Bargen Twf Canolbarth Cymru – Diweddariad ynghylch Cynnydd Rhoddodd Cathy Martin ddiweddariad ar lafar i'r cyfarfod.</p> <p>Recriwtio Mae gan y Tîm nifer o aelodau newydd. Mae Tom Yeo wedi ymuno fel yr Arweinydd Ynni, mae Angharad Massow wedi ymuno fel Swyddog Cyfathrebu ac mae Rheolwr Rhaglen wedi'i recriwtio ar gyfer y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo. Disgwylir y bydd yn dechrau ar 8 Awst.</p> <p>Mae TY wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar gyllid ar gyfer rôl Swyddog Ynni newydd, a fyddai'n cynorthwyo Ceredigion a Phowys gyda'r Cynlluniau Gweithredu Ardaloedd Lleol ond a fyddai'n rhan o Tyfu Canolbarth Cymru a'r gwaith ehangach y mae TY yn ei gyflawni ym maes ynni.</p> <p>Mae Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer y Sector Preifat wedi'i drafftio. Mae wedi dod oddi wrth Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac mae'n ystyried sut y mae'r egwyddorion a'r dull gweithredu'n gweithio er mwyn denu buddsoddiad ym mhrosiectau'r Fargen Twf. Bydd noddwyr y prosiectau'n ceisio cyllid gan y Fargen Twf ond bydd angen iddynt ddarparu ffynonellau eraill o gyllid, boed yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus. Mae'n ddogfen lefel uchel a fydd yn datblygu gydag amser yn unol â'r Fargen Twf. Mae'n debygol y bydd yn cael ei chynnwys yn Achos Busnes ehangach y Portffolio, sydd wedi'i ddrafftio ac a fydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn.</p> <p>Ar ddechrau'r flwyddyn, cafodd unigolion eu recriwtio i'r Grŵp Cyngori Economaidd, sef grŵp sector preifat a fydd yn cynnig cymorth i Achos Busnes y Fargen Twf drwy roi cyngor a rhannu eu gwybodaeth am y sector preifat. Byddant hefyd yn cefnogi'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer y Sector Preifat a strategaethau tebyg a allai gael eu datblygu. Cafodd y cyfarfod cyntaf ei gynnal ym mis Mawrth ac mae rhaglen waith wedi'i datblygu.</p> <p>Portffolio'r Fargen Twf Ar hyn o bryd, mae gan y Portffolio ddwy raglen.</p> <p>Y Rhaglen Ddigidol (a reolir gan Dave Owen) Mae'r rhaglen hon yn rhan allweddol o Weledigaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Ym mis Mawrth, cymeradwyodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru gamau i sefydlu Bwrdd y Rhaglen Ddigidol i arwain y gweithgarwch hwnnw a'r gwaith o ddatblygu Achos Busnes y Rhaglen (sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd). Mae tair sesiwn wedi'u cynnal eisoes ac maent yn ystyried prosiectau posibl a allai berthyn i'r rhaglen hon. Mae'r</p>

Bwrdd yn ystyried y Fargen Twf, ond bydd hefyd yn ystyried cyfleoedd eraill o ran cyllid ar hyd a lled y rhanbarth ac yn sicrhau bod unrhyw waith yn cyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo

Bydd Rheolwr y Rhaglen yn dechrau ym mis Awst, sy'n allweddol o safbwynt symud y rhaglen hon yn ei blaen; nid oedd yr adnodd ar gael yn flaenorol. Mae rhywfaint o waith wedi'i gyflawni hyd yma ac mae rhai adroddiadau wedi'u comisiynu, ond mae'n bosibl mynd i fanylder yn awr a chael gwybod mwy am yr opsiynau sy'n perthyn i safleoedd posibl a gweithio ar benderfynu pa rai sy'n ddigon hyfyw i'w symud ymlaen. Mae trafodaethau wedi'u cynnal hefyd â Llywodraeth Cymru er mwyn cael cymorth o ran cyllid.

Prosiectau

Mae sawl cynnig cychwynol ynghylch prosiectau wedi'u cyflwyno er mwyn cael cyllid drwy'r Fargen Twf. Aethant drwy broses creu rhestr fer ym mis Awst 2021, ac mae'r prosiectau wrthi'n cael eu datblygu yn awr. O ran y Fargen Twf, mae'n rhaid i'r asesiadau ddilyn y Model Busnes Pum Achos. Mae'n gymhleth ond mae'n galluogi noddwyr y prosiectau i wneud yn siŵr eu bod wedi ymdrin â'r holl fanylion er mwyn sicrhau y gallant ddarparu achosion busnes cadarn a fydd yn llwyddiannus yn ystod y cam cyflawni. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod yr Achosion Amlinellol Strategol wedi'u cyflwyno a bod wyth i'w hadolygu; methwyd â chyflwyno un achos erbyn y dyddiad cau ym mis Mehefin. Mae proses arfarnu ar waith gyda thîm adolygu mewnol, ac mae'r broses honno newydd ddechrau. Bydd ymatebion y tîm adolygu'n cael eu cyflwyno i'r Grŵp Rheoli, er mwyn iddynt gael eu hadolygu ym mis Awst, a byddant yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru wedyn ym mis Medi.

Cwestiynau

Diolchodd y Cyngh. BD i CMn am ei chyflwyniad a chydabu'r gwaith sydd wedi'i wneud ar y Fargen Twf gan swyddogion a'r Arweinwyr blaenorol. Ceir elfen o risg wrth i gostau adnoddau gynyddu, a all wneud gwahaniaeth enfawr i gostau prosiectau. O ran yr amserlen a'r adeg y bydd y prosiectau hyn yn cael eu gweithredu, beth yw'r risg os na chaiff yr arian ei ryddhau gan Lywodraeth y DU oherwydd yr amserlen ar gyfer gwireddu'r prosiectau, ac a fyddant ar eu colled? Dywedodd CMn wrth y cyfarfod fod y cyllid wedi'i neilltuo gan Lywodraeth y DU am gyfnod o 10 mlynedd, a gan Lywodraeth Cymru am gyfnod o 15 mlynedd. Mae hynny'n seiliedig ar broffil gwastad wedi'i rannu ar draws y blynyddoedd. Bydd yn caniatáu i'r prosiectau gael eu cyflwyno ychydig yn arafach, ond mae angen ystyried cyllid os yw costau'r prosiectau yn cyrraedd yn gynt. Mae costau cynyddol yn bryder, ond mae prosiectau'n cynnwys amcangyfrif gorau yn eu hachosion busnes. Ceir tri cham – Achos Amlinellol Strategol, Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Llawn. Mae'n rhaid i bob prosiect fynd drwy bob cam cyn y gwneir penderfyniad terfynol ynghylch a fydd cyllid yn cael ei roi neu beidio. Mae'n broses hir, ond erbyn y cam olaf bydd gan brosiectau ddealltwriaeth well o lawer o'r costau a'r risgiau posibl ar y pryd. Nid oes unrhyw risg ar hyn o bryd o safbwynt cyllid y Llywodraeth oherwydd ei fod wedi'i neilltuo a bod y Llywodraeth yn ymgysylltu â Tyfu Canolbarth Cymru i sicrhau bod y Fargen Twf yn llwyddiannus yn y rhanbarth. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ystyried sut y gellir cynorthwyo'r prosiectau o safbwynt costau a allai gynyddu. Os bydd y costau'n cynyddu, gallai olygu bod y cyllid yn cael ei rannu'n deneuach ar draws y prosiectau. Bydd hynny'n golygu troi at y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer y Sector Preifat a chwilio am opsiynau amgen o ran cyllid er mwyn cael arian cyfatebol.

Derbyniodd y Cyngh. BD ymateb CMn. Fodd bynnag, holodd ynghylch y flaenoriaeth a roddir i brosiectau o bob sir ac a fyddai prosiectau ym mhob sir ar eu colled pe bai

	<p>amserlen yn caniatáu cyflwyno'r naill yn gynt na'r llall? Atebodd CMn gan ddweud y byddai'r asesiadau cychwynnol yn dechrau'n fuan ac y byddai'r prosiectau yn symud ymlaen i'r cam nesaf os oeddent yn bodloni'r holl feini prawf. Pe bai rhai prosiectau'n rhoi'r gorau iddi, byddai'n bosibl wedyn i brosiectau eraill gael eu cyflwyno ar draws y rhanbarth. Y cam cyntaf fyddai adolygu'r rhestr gychwynnol o brosiectau a gweld ble y maent arni o safbwynt eu datblygiad a'u potensial i gael eu cyflwyno. Ceir cyfle i wahodd prosiectau newydd os nad oes unrhyw beth yn y rhestr gychwynnol sy'n addas i'w symud ymlaen i'r cam nesaf. Cafwyd ymholiadau yn ystod y misoedd diwethaf, ac mae'r noddwyr hynny wedi'u cyfeirio yn y lle cyntaf at dimau datblygu economaidd yr awdurdodau lleol, a fydd yn edrych ar y cynigion ac yn penderfynu a fyddent yn addas ar gyfer y Fargen Twf ynteu ar gyfer cyfleoedd eraill yn y rhanbarth, gan gofio'r amseru.</p> <p>Gofynnodd SH pryd y mae'r cyfle i geisiadau'r haen ddilynol yn gorffen. A yw'r cyfle yn dal ar gael neu a yw wedi gorffen oherwydd nifer y ceisiadau presennol? Atebodd CMn gan ddweud y gallai fod yna gyfle ond na ellir gwarantu hynny. Cafodd Achos Busnes y Portffolio ei ddatblygu ym mis Hydref 2021 ac roedd yn seiliedig ar y cynigion cychwynnol a gyflwynwyd ac, yn dilyn hynny, y rhestr fer sy'n adlewyrchu sefyllfa'r Portffolio ar hyn o bryd. Mae'r Portffolio yn hyblyg, felly gall un prosiect roi'r gorau iddi a chael ei ddisodli gan brosiect arall, boed yn gynnig o'r rhestr gychwynnol neu'n gynnig newydd. Bob blwyddyn, bydd Achos Busnes y Portffolio yn cael ei adolygu yn yr hydref. Mae hynny'n cael ei wneud yn awr yn ystod yr haf a'r hydref â gwybodaeth sy'n deillio o'r Achosion Amlinellol Strategol a adolygir ar hyn o bryd. Bydd hynny'n ei gwneud yn bosibl diweddarau Achos Busnes y Portffolio, a galw am brosiect arall efallai.</p>
4.	<p>Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol – Diweddariad ynghylch Cynnydd Rhoddodd Aggie Caesar-Homden ddiweddariad ar lafar i'r cyfarfod a dywedodd fod cynnydd da'n cael ei wneud yn y Bartneriaeth.</p> <p>Y Warrant i Bobl Ifanc Mae ymarfer mapio wedi'i gyflawni ac mae'r wybodaeth honno'n cael ei rhannu â Gyrfa Cymru ac yn cael ei defnyddio gan gynghorwyr y sefydliad hwnnw fel adnodd cyfeirio. Disgwylir y bydd yr adroddiad drafft yn barod yn fuan, a bydd yn cael ei adolygu a'i ddsbarthu'n eang er mwyn cael sylwadau arno cyn iddo gael ei gyflwyno i Fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.</p> <p>Blaenraglen Waith Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal â Rheolwyr Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru ynghylch y pethau allweddol sydd i'w cyflawni, sydd yn y Nodyn Cyfarwyddyd drafft, yn ystod y 12 mis nesaf a thu hwnt.</p> <p>Bydd y cynnwys yn cael ei ddiweddarau bob chwe mis a'i ailddosbarthu i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i gyfeiriad polisi ac adlewyrchu cynnydd ar sail cerrig milltir allweddol. Y pethau allweddol sydd i'w cyflawni fydd Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau 2022-25 a fydd yn ymdrin â Sgiliau Digidol, Sgiliau Sero Net, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, Addysg Bellach a Phrentisiaethau, a'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i 125,000 o brentisiaethau ac mae wrthi'n gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i arwain rheolwyr drwy'r polisïau. Bydd gwaith yn cael ei wneud ar y meysydd economaidd allweddol â blaenoriaeth, yn rhan o'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau, a bydd y Warrant i Bobl Ifanc hefyd yn cyfrannu i'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau.</p> <p>Bydd yr arolwg Cyflogaeth a Sgiliau blynyddol yn cael ei ddsbarthu cyn bo hir. Mae cwestiynau wedi'u cynnwys am rifedd, anghenion o ran sgiliau yn y dyfodol, a'r meysydd a nodir uchod.</p>

	<p>Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder ynghylch pryd y byddai'r amryw adroddiadau hyn ar gael.</p> <p>Disgwylir yr adroddiad drafft am y Warant i Bobl Ifanc cyn pen yr wythnos. Mae Hatch Associates wedi'u comisiynu i gyflawni'r gwaith, a hwn fydd y drafft cyntaf.</p> <p>Mae trafodaethau am y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau yn cael eu cynnal â Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, oherwydd mae'r amserlenni cychwynnol wedi'u newid yn y llythyr dyfarnu grant. Mae'n debygol o fod yn fis Medi/Hydref, a bydd y Cynllun yn cyfrannu i gynlluniau ar gyfer Addysg Bellach a'r cwricwlwm ar gyfer y flwyddyn nesaf.</p>
<p>5.</p>	<p>Diweddariadau ynghylch Busnes</p> <p>5.1 Y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio</p> <p>Rhoddodd Arwyn Davies ddiweddariad ar lafar.</p> <p>Ymddiheurodd AD am deitl yr eitem hon, nad oedd neb wedi sylwi ei fod yn anghywir. Y Cynllun Trawsnewid Trefi yw'r enw ar y rhaglen bellach. Er mai rhaglen gyfalaf yw'r cynllun, mae gwaith wedi'i gyflawni i greu strategaeth ar gyfer datblygu'r trefi gwledig hyn yn y Canolbarth. Mae grŵp wedi'i sefydlu i ddatblygu'r strategaethau ac mae'n cynnwys Llywodraeth Cymru, partneriaid ac awdurdodau lleol. Mae syniadau a gweledigaethau wedi'u rhannu ar draws y grŵp, ac mae'r aelodau wedi bod yn ystyried y cyfalaf a'r buddsoddiadau eraill gan Lywodraeth Cymru sy'n ofynnol er mwyn helpu i ddatblygu canol y trefi hyn.</p> <p>Tan eleni, câi cyllid ei ddyrannu bob blwyddyn, sydd wedi bod yn anodd iawn. Disgwylir am gadarnhad ynghylch y cyllid a fydd yn cael ei ddyrannu'n awr ar gyfer rhaglen strategol 3 blynedd. Bydd hynny'n galluogi trafodaethau gwell â phartneriaid er mwyn ystyried yr opsiynau cyllido a datblygu syniadau. Mae'r cyllid hwn ar gael i bob partner, yn y sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector yn y Canolbarth.</p> <p>Diben y rhaglen yw datblygu cynlluniau strategol sy'n cyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru a chynlluniau lleol yr awdurdodau lleol. Rhaid i'r cynlluniau gael eu hategu gan gynllun lleol sydd wedi'i ddatblygu a'i fabwysiadu gan y cynlluniau lle. Mae hynny'n sicrhau ymdeimlad clir o berchnogaeth gan y rhanddeiliaid yn y trefi. At hynny, rhaid bod cysylltiadau rhwng y cynlluniau ac ymyriadau eraill, e.e. tai, seilwaith gwyrdd, seilwaith digidol, teithio llesol a'r economi gylchol, sy'n themâu y mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt. Rhaid i bob cais gael ei gyflwyno drwy'r awdurdodau lleol yn y lle cyntaf, a byddan nhw'n dilyn gweithdrefn ar gyfer cymeradwyo'r ceisiadau ar lefel leol a rhanbarthol. Y gobaith yw y bydd syniadau arloesol yn cael eu rhannu ar draws y rhanbarth er budd pob un o'r trefi.</p> <p>GWEITHREDU: Y partner arweiniol i ddarparu adroddiad ysgrifenedig ynghylch cynnydd yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Nododd NV (o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys) fod mwy o gynnydd wedi'i wneud yng Ngheredigion nag ym Mhowys ar hyn o bryd, a gofynnodd sut y caiff y cynlluniau hyn "o'r gwaelod i fyny" eu llunio, oherwydd weithiau ceir diffyg ymgysylltu ar draws y trydydd sector. Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys bob amser yn ceisio cynyddu'r gwaith ymgysylltu sy'n digwydd ar draws y sector hwnnw, naill ai ynghylch cynlluniau sy'n bodoli eisoes neu ynghylch cynlluniau newydd. Wrth ymateb, dywedodd AD nad oes unrhyw ganllawiau penodol i'w cael ynghylch sut mae datblygu'r cynlluniau hyn, ond y dylai fod yna gefnogaeth sylweddol gan ystod eang o rhanddeiliaid. Yng Ngheredigion, defnyddiwyd cyllid refeniw i ddod â'r rhanddeiliaid allweddol hyn ynghyd. Mae 6 o</p>

gynlluniau lle ar waith yng Ngheredigion ac mae angen eu diweddarw wrth iddynt symud yn eu blaen. Y pwynt allweddol yw bod a wnelo'r rhaglen hon â dod â rhanddeiliaid ynghyd i rannu syniadau a sbarduno awydd i weithredu er mwyn cyrraedd nod cyffredin.

5.2 Adroddiad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol

Darparodd Claire Miles adroddiad ysgrifenedig i'r cyfarfod a thynnodd sylw at y meysydd canlynol.

Prif faes ffocws a gwaith y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ers dechrau 2022 fu cynorthwyo gwaith swyddogion ar draws y ddau awdurdod lleol a mapio gweithgarwch rhaglenni a phrosiectau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae rhywfaint o'r gwaith hwnnw wedi bod yn ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a fydd yn cael sylw'n nes ymlaen dan eitem 7 yn yr agenda. Mae'n waith a ddeilliodd o adroddiad a gyflwynwyd ddiwedd 2021, sef dadansoddiad o'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r sefyllfa o ran cyllid yr UE ar y pryd a diwedd rhaglenni a gweithgareddau. Yn yr adroddiad heddiw, ceir dadansoddiad sefyllfaol o weithrediadau ar lefel Cymru gyfan a ble y maent arni ar hyn o bryd. Ceir gwybodaeth hefyd am ddyfodol cyllid a chymorth gan Busnes Cymru a rhaglenni cenedlaethol eraill.

Mae elfennau o risg yn gysylltiedig â rhaglenni ac ansicrwydd o ran y dyfodol, ond mae hynny'n cael ei fonitro'n rheolaidd yn rhan o waith y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ac yn rhan o waith gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd adnoddau a chyllid yn effeithio ar rai gweithrediadau ar lefel Cymru gyfan. Er bod yr adnoddau a'r cyllid yn parhau, bydd yna effaith ar lefel y gweithgarwch. Ceir pryder y bydd y lefel is o weithgarwch yn cael effaith anghymesur ar y Canolbarth oherwydd natur wledig iawn y rhanbarth. Bydd y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn parhau i fonitro'r sefyllfa a'r modd y gallai effeithio ar allu'r Canolbarth i wireddu'r weledigaeth ar gyfer y rhanbarth.

Cafodd aelodau'r Bartneriaeth eu hannog gan CMs i gysylltu â'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol os oes ganddynt unrhyw ymholiadau am gyllid, rhaglenni a chyfleoedd yn y dyfodol.

5.3 Y Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith

Darparodd Ann Elias adroddiad ysgrifenedig, a rhoddodd ddiweddariad ynghylch materion strategol yn ymwneud â thrafnidiaeth, sy'n effeithio ar y rhanbarth ac ar waith y Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith.

Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phapur polisi ynghylch ffyniant bro, o'r enw 'Levelling Up the United Kingdom'. Mae'n cynnwys manylion am fframwaith datganoli newydd ac am sefydlu corff data annibynnol newydd a Chyngor newydd, sef Cyngor Cynghorol ar Ffyniant Bro. Mae'n amlinellu beth sy'n effeithio ar y gallu i wneud cais am gyllid i gyflawni prosiectau trafndiaeth. Bydd y cyllid yn dod o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn awr. Gallai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gynnig cyfle o ran cyllid ar gyfer elfen refeniw prosiectau trafndiaeth.

Mae gwaith yn cael ei gyflawni'n awr ar Reilffordd y Cambrian er mwyn ei hailagor (cafodd ei chau oherwydd difrod a achoswyd gan Storm Franklin ym mis Chwefror 2022) a bydd angen cyflawni gwaith yn rheolaidd i sicrhau bod y rhwydwaith yn cael ei ddiogelu rhag bygythiadau yn y dyfodol. Mae Network Rail wedi bod yn gweithio i wella'r system signalau ar y rheilffyrdd fel ei bod yn addas ar gyfer y trenau newydd a fydd yn cyrraedd y rhwydwaith yn 2023.

Mae Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru yn asesu ei brosiectau a ariennir ar gyfer ffyrdd, yng ngoleuni'r argyfwng hinsawdd a'r newid polisi yn Llywodraeth Cymru. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y bydd hynny'n effeithio ar y Canolbarth. Mae'r holl gynlluniau yr oedd disgwyl iddynt gael eu cyflwyno ar stop yn awr nes y bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gwblhau.

Mae Trafnidiaeth Cymru (a ariennir yn llawn gan Lywodraeth Cymru) yn rhedeg y rheilffyrdd ac mae'n datblygu gwasanaethau bws erbyn hyn. Bydd y gwaith hwnnw'n effeithio ar y Canolbarth, felly caiff ei fonitro er mwyn sicrhau na fydd yn cael effaith andwyol ar y rhanbarth.

Mae gwasanaeth cludo nwyddau masnachol wedi ailddechrau ar Reilffordd y Cambrian am y tro cyntaf ers 30 mlynedd. Mae Gweinidog Rheilffyrdd Llywodraeth y DU newydd gyhoeddi bod y Llywodraeth yn bwriadu gosod targedau ar gyfer cludo nwyddau ar y rheilffyrdd, a fydd yn esgor ar gyfleoedd enfawr i'r Canolbarth ac i fusnesau ddatgarboneiddio eu sector.

Cwestiynau

Gofynnodd y Cyngh. BD a oes cyllid tebyg i gyllid cynllun HS2 ar gael ar gyfer y Canolbarth, ac a yw'r mater hwnnw wedi'i godi gyda Llywodraeth y DU? Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud droeon y dylai cyfran o gyllid fformiwla Barnett fod yn dod o HS2. Nid yw Llywodraeth y DU yn derbyn bod cyllid fformiwla Barnett yn dod i Gymru o gynllun HS2. Eir ar drywydd cyllid arall o ran Adolygiad Cysylltedd yr Undeb, a cheir cyfle i gydweithio â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i wella'r seilwaith, pe bai cyfle'n codi i wneud cais am arian.

Gwnaeth y Cyngh. KH bwynt am deithio llesol a'r tair canolfan a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yng Ngheredigion. Mae angen tynnu sylw Gweinidogion at y ffaith bod angen i deithio llesol gael ei ymestyn i ardaloedd mwy gwledig ac na ddylai gael ei gyfyngu i'r tair prif dref, sef Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Gofynnodd y Cyngh. KH faint o gydweithio sy'n digwydd rhwng y sector trafniadaeth a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol os ceir diffyg adnoddau dynol, h.y. gyrwyr bysiau? Mae sylwadau wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru am y diwygiadau i fysiau; mae angen i ardaloedd gwledig gael eu hystyried mewn modd gwahanol i ardaloedd trefol. Mae teithio llesol yn broblemus, oherwydd dim ond cymunedau dynodedig â thros 2,000 o bobl a fydd yn cael eu targedu at ddibenion teithio llesol ar draws ardal y Canolbarth. Mae'r pellteroedd a deithir mewn ardaloedd gwledig yn hirach o lawer na'r pellteroedd a deithir mewn ardaloedd eraill. At hynny, twristiaeth yw'r maes lle mae beicio wedi tyfu. Cydnabuwyd bod angen sefydlu ffrwd gyllido i hybu cysylltedd yn y rhanbarth, a'r gobaith yw y bydd rhaglen yn deillio o hynny, a fydd yn cynnig cyllid. Mae AE wedi tynnu sylw at ddiffyg gyrwyr bysiau, mewn cydweithrediad ag AC-H o'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, ac mae wedi bod yn ystyried y set sgiliau a'r problemau y mae'r diwydiant trafniadaeth yn eu hwynebu. Ceir problemau hefyd yn y farchnad cerbydau trydan oherwydd nad oes gan fecanyddion y sgiliau i roi gwasanaeth i gerbydau trydan.

Gofynnodd PD o Undeb Amaethwyr Cymru a oedd angen edrych ar gyflwr y pontydd a'r rheilffyrdd er mwyn gallu darparu ar gyfer trenau megis y Flying Scotsman. Atebodd AE gan ddweud eu bod wedi bod yn dadlau dros ailgyflwyno trenau stêm, a bod trenau stêm yn rhedeg ar hyd rheilffordd Calon Cymru o Amwythig i Abertawe. Roedd trenau stêm yn arfer rhedeg ar Reilffordd y Cambrian, ond mae Network Rail wedi diweddarau'r system signalau i system ddigidol, sy'n golygu nad oes modd i drenau stêm ddod ar y rheilffordd. Mae

angen dod o hyd i ateb gyda National Rail, oherwydd fel arall bydd yn effeithio ar y rhwydwaith cyfan ar gyfer trenau stêm.

Gofynnodd VH a oes cyfle i ailystyried dichonolrwydd ailgyflwyno'r rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth. Mae'r gost wedi bod yn rhwystr yn y gorffennol, ond byddai'n gwella'r rhanbarth yn ei gyfanrwydd. O safbwynt twristiaeth a'r cysylltiadau fferi ag Iwerddon, a fydd y ffaith nad yw'r fferïau yn cludo cymaint o nwyddau'n effeithio ar wasanaethau fferi i ymwelwyr, a allai olygu bod llai o ymwelwyr o Iwerddon yn ymweld â'r rhanbarth? Dywedodd AE fod rhywfaint o waith asesu dichonolrwydd wedi'i wneud ar y rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth, ond y byddai'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Mae cael diweddariadau pellach ynghylch a fydd y rheilffordd yn rhan o bolisi yn y dyfodol yn perthyn i'r agenda. O ran y cwestiwn am dwristiaeth, mae gwaith wedi'i wneud i hyrwyddo trafndiaeth gyhoeddus, ac mae llawer o waith buddsoddi wedi'i wneud yn rhwydwaith TrawsCymru er mwyn sicrhau bod y bysiau'n cysylltu â'r porthladdoedd fferi. Mae angen cyllid referniw i hyrwyddo trafndiaeth, nad yw ar gael i ni ar hyn o bryd.

5.4 Y Grŵp Cyngori ar Ynni

Darparodd Tom Yeo adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y cyfarfod.

Crynhodd TY y sefyllfa'n fras i'r sawl nad ydynt yn gyfarwydd â'r rhaglen ynni. Cafodd Strategaeth Ynni'r Canolbarth ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru; ceir un ar gyfer pob un o'r rhanbarthau. Mae gwasanaeth ynni Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo Tyfu Canolbarth Cymru i ddatblygu'r strategaeth gyda rhanddeiliaid allweddol, ac mae'r strategaeth yn rhan o Strategaeth Cymru Sero Net Llywodraeth Cymru. Cafodd y strategaeth ranbarthol ei chymeradwyo y llynedd, ac yn ystod 2022 canolbwyntiwyd ar ddatblygu'r Cynllun Gweithredu sy'n ofynnol i gyflwyno'r system ynni a amlinellir yn y strategaeth. Mae pedwar gweithdy a fu'n canolbwyntio ar amaethyddiaeth, ynni domestig, cynhyrchu trydan, a thrafnidiaeth wedi'u cynnal gyda thros 130 o gyfranogwyr yn bresennol. Mae allbynnau o'r cyfarfodydd wedi'u hystyried gan y grŵp cyngori ac mae'r rhestr derfynol o gamau gweithredu wrthi'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Y cam nesaf yw ceisio cymeradwyaeth derfynol gan y ddau awdurdod lleol yn y rhanbarth er mwyn datblygu trefniant llywodraethu a fydd yn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ac yn goruchwyllo'r modd y caiff ei fonitro a'i werthuso. Bydd y Cynllun Gweithredu yn addasu i newidiadau polisi ar bob lefel, gan gynnwys ar lefelau rhanbarthol a lleol. Bydd hynny'n sicrhau y gwneir yn fawr o bob cyfle.

Cwestiynau

Gofynnodd y Cyngh. BD a oes yna ymwybyddiaeth o'r ffaith nad oes yna ddigon o gapasiti i gymryd trydan a gynhyrchir ar ffermydd? Atebodd TY gan ddweud ei fod yn broblem yn y Canolbarth. Mae cyfyngiadau ar y grid trydan a'r grid nwy, ac nid oes fawr ddim capasiti ar gael. Mae angen mynd i'r afael â hynny mewn sawl ffordd – yn gyntaf drwy sicrhau bod y grŵp yn cyfrannu ac yn lloïo Llywodraeth Cymru drwy'r prosiect Ynni Dyfodol Cymru a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, gan dynnu sylw at y problemau a wynebir yn y Canolbarth. Mae angen ystyried y defnydd lleol a wneir o ynni a gynhyrchir oddi ar y grid yn y rhanbarth, a gweithio gyda ffermwyr i sicrhau eu bod yn gallu gweithredu'n ôl yr arfer gan gefnogi eu cymunedau lleol hefyd. Mae yna rwystrau, ond mae TY yn hapus i barhau i ymgysylltu. Nododd y Cyngh. BD fod y tariffau cyflenwi a bennir gan Lywodraeth y DU yn rhy isel, a bod angen pwysu efallai i gynyddu'r tariffau. Cytunodd TY gan ddweud bod angen canolbwyntio ar yr heriau a wynebir mewn ardaloedd gwledig. Rhwystr arall yw'r gost ymlaen llaw i ffermwyr.

	<p>Gofynnodd NV o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys beth yw'r amserlen ar gyfer y Cynllun Gweithredu? Mae drafft terfynol wedi'i lunio o'r Cynllun Gweithredu ac mae'n cael ei adolygu o safbwynt adnoddau ac o safbwynt y gallu i'w symud yn ei flaen. Nid oes amserlen wedi'i chadarnhau ar hyn o bryd ar gyfer y Cynllun Gweithredu.</p> <p>Gofynnodd y Cyngh. JG-W, Cadeirydd, a yw'n hawdd sefydlu cynlluniau ar gyfer gwneud defnydd lleol o'r ynni, yn hytrach na'i fod yn cael ei allforio i'r grid? Atebodd TY gan ddweud y gallai rhagor o wybodaeth fod ar gael yn y dyfodol, o ran strategaethau gwahanol a'r cynlluniau ynni ardaloedd lleol. Mae'n bosibl y bydd yn ystyried y rhwydweithiau ynni mewn trefi lleol a darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r ynni yn lleol ac yn wahanol, ac ystyried sut y caiff ei storio yn lleol. Mae'n gymhleth, ond mae'n rhywbeth i'w ystyried yn y dyfodol. Ychwanegodd NV fod yna ofyniad yng nghanllawiau'r Llywodraeth i ystyried perchenogaeth gymunedol ar ddatblygiadau ynni, megis ffermydd gwynt, sy'n golygu bod y buddsoddiad yn dychwelyd i'r rhanbarth.</p>
<p>6.</p>	<p>6.1 Diweddariad gan y Llywodraeth(au) Rhoddodd Peter James ddiweddariad ar lafar.</p> <p>Mae cofnodion y cyfarfod ym mis Chwefror yn disgrifio sefyllfa'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a gyhoeddwyd yn ôl ym mis Rhagfyr 2021. Y cam nesaf yw'r gwaith cyflawni a gweld swyddfa ranbarthol Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol, a chydffuddsoddi o ran y blaenoriaethau craidd ar gyfer y rhanbarth. Mae tîm rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos iawn ar y Fargen Twf gyda thîm CMn, Swyddfa Rheoli'r Portffolio a Llywodraeth y DU er mwyn helpu i symud y Fargen Twf yn ei blaen i'r cam cyflawni. Bydd gwaith yn parhau ar Achos Busnes y Portffolio er mwyn cael llythyr cynnig yn gynnar yn y flwyddyn newydd.</p> <p>6.2 Diweddariad gan Lywodraeth y DU Dywedodd CMS wrth y cyfarfod nad oedd neb yn y cyfarfod i gynrychioli Llywodraeth y DU.</p>
<p>7.</p>	<p>Y Gronfa Ffyniant Gyffredin Rhoddodd Carwyn Jones-Evans (CJ-E) a Rebecca Jeremy (RJ) ddiweddariad ar lafar a chyflwyniad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin.</p> <p>GWEITHREDU: Bydd copi o'r cyflwyniad yn cael ei ddsbarthu ar ôl y cyfarfod.</p> <p>Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn rhan o Bolisi Ffyniant Bro Llywodraeth y DU. Roedd ceisiadau'r ddau awdurdod lleol am gyllid Ffyniant Bro yn llwyddiannus, yn ogystal â cheisiadau i'r Gronfa Adfywio Cymunedol. Cyllid refeniw yw Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn bennaf, a bydd yn cael sylw yn y cyflwyniad a fydd yn amlinellu pa waith sy'n cael ei wneud ar lefel y rhanbarth i ddatblygu'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol a pha gam y mae wedi'i gyrraedd. Bwriedir cynnal gweminar ar 11 Gorffennaf er mwyn rhannu'r wybodaeth hon â chynulleidfa ehangach.</p> <p>Cwestiynau Gofynnodd y Cyngh. BD, yn gyntaf, a oedd tanwariant ym Mlwyddyn 1 oherwydd cyfyngiadau o ran amser a bod yr arian yn mynd yn ôl, ac a yw hynny'n golygu y bydd mwy o arian ar gael wedyn ar gyfer Blwyddyn 2. Gofynnodd, yn ail, a oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch pa awdurdod fydd yn arwain o ran y gronfa hon a sut y bydd y penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud. Dywedodd CJ-E fod y cyllid ar hyn o bryd yn gyllid a gollir os na chaiff ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae pob un o awdurdodau lleol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn anfodlon ynghylch hynny.</p>

	<p>Nid yw'r arian a ddyrannwyd ar gyfer y Canolbarth yn fawr o'i gymharu â rhanbarthau eraill ar draws Cymru. Mae'n broblem gyffredin sy'n cael ei huwchgwyfeirio, a bydd y ddau Arweinydd yn rhan o drafodaethau yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r Prif Weithredwyr a swyddogion ar draws y rhanbarth ynghylch pa awdurdod fydd yr awdurdod arweiniol. Nid penderfyniad i'r Bartneriaeth mohono, ond penderfyniad i'r awdurdodau lleol.</p> <p>Diolchodd CJ-E i'r holl swyddogion sydd wedi bod yn cydweithio ag ef a Becky Jeremy, oherwydd mae dod â'r holl elfennau hyn at ei gilydd wedi golygu llawer o waith. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r swyddogion am y gwaith sydd wedi'i gyflawni hyd yma.</p>
8.	<p>Unrhyw fater arall Nid oedd unrhyw fater arall.</p>
9.	<p>Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dydd Gwener 16 Medi 2022, Neuadd y Sir, Llandrindod (yn dibynnu ar niferoedd yr achosion o COVID) • Dydd Llun 21 Tachwedd 2022

